Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyd-Bwyllgor GwE |
| **DYDDIAD** | 12 Gorffennaf 2023 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno Datganiad o'r Cyfrifon, ar ffurf 'statudol', wedi'i ardystio, ond yn amodol ar archwiliad |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a nodi'r wybodaeth |
| **AWDUR** | Dewi Aeron Morgan, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd |

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

1.1 Mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.

1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chynghorau lleol eraill.

1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor lletyol sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar faterion cyllidol Cyd-Bwyllgor GwE.

1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y diwygiwyd) yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn fwy na £2.5miliwn, rhaid paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chôd CIPFA ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.

## 2. CYFRIFON 2022/23

2.1 Cyflwynwyd adroddiadau "alldro" syml a chryno perthnasol i gyfrifon 2022/23 i Gyd-Bwyllgor y GwE ar 24 Mai 2023. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

2.2 Mae'r gorwariant net terfynol am 2022/23 yn £138,871. Roedd yr adroddiad "alldro" cyflwynwyd i'r Cyd-Bwyllgor ar 24 Mai 2023 yn manylu ar y rhesymau dros y gorwariant net hwnnw.

2.3 **Yn Atodiad A, cyflwynir y Datganiad o'r Cyfrifon am 2022/23 (yn amodol ar archwiliad), wedi'i ardystio** gan Dewi Aeron Morgan, y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor. Mae'r datganiad yma ar ffurf safonol statudol ac yn hanfodol o safbwynt llywodraethu.

2.4 Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon eisoes yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd wedi'u penodi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yna bydd yr archwilwyr yn cynhyrchu adroddiad "ISA 260", sy'n manylu ar brif ddarganfyddiadau Archwilio Cymru, ac wedi'i gyhoeddi yn enw'r Archwilydd Cyffredinol, i'w gyflwyno i Gyd-Bwyllgor GwE ar 6 Rhagfyr 2023.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor dderbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon GwE (yn amodol ar archwiliad) am 2022/23.

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

### Y Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.